



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Aduned Sgiliau Cymru.



Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
Llais y diwydiant yng Nghymru



Ffit Strategol.

Rhan allweddol o'r Cynllun Sgiliau ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yw creu adduned i'r diwydiant. Yn benodol, y nod strategol yw gwella canfyddiad a dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru fel diwydiant sy'n cynnig dewis cyffrous o yrfa ac felly pwyslais yr adduned yw annog busnesau i gefnogi gweithgarwch i wella delwedd y diwydiant fel lle cyffrous i weithio.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi nifer o fentrau llwyddiannus. Nod y cynllun sgiliau hwn yw ehangu'r niferoedd sy'n cyfrannu a'r gweithgarwch fel bod y sector yn creu symudiad cadarnhaol yn y canfyddiad o'r diwydiant.

Yn ogystal, y cynnig yw y dylid ehangu gweithgarwch cyfredol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y sector cynhyrchu bwyd, i gwmpasu cwmnïau drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.

Amcanion.

Amcan yr adduned yw annog busnesau i ymgymryd ag un neu fwy o'r gweithgareddau sydd ar gael i ymgysylltu ag ysgolion lleol, cymunedau a phobl leol di-waith i'w hysbysu a'u haddysgu am y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y gadwyn gyflenwi bwyd.

Trosolwg o'r cyfleoedd.

Ceir amrywiol gyfleoedd, gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, y gall cwmnïau fanteisio arnynt i ymgymryd â gweithgarwch.

Gweithgarwch Ysgolion

- o **Hyfforddi Llysgennad** - ymrwymo i hyfforddi Llysgennad Gyrfaedd Blasus a'u galluogi i ymweld ag o leiaf un ysgol leol i arddangos eu stori a chynnig trosolwg o yrfaedd bwyd a diod
- o **Cynnal Taith Flasu** - gwahodd ysgolion lleol i'ch cwmni i weld drostynt eu hunain pa mor ddynamig a diddorol yw'r diwydiant a'r gwahanol swyddi sydd eu hangen er mwyn gallu gwneud y bwyd rydym yn ei fwyta
- o **Cefnogi Her Ysgol** - yn dod yn fuan! Helpu ysgol leol drwy feirniadu eu her dylunio a thechnoleg i ddylunio cynnyrch newydd sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol.

Gweithgarwch yn y Gymuned Leol

- o **Swyddi Blasus** - ymgysylltu â'r rheini sy'n cynghori (e.e. Gyrfa Cymru) ac yn ceisio cyflogaeth yn eich ardal leol i'w hannog i fanteisio ar gyfleoedd gwirioneddol am swyddi yn eich busnes
- o **Hyrwyddo'r diwydiant** - gweithio gyda gwyliau bwyd lleol a digwyddiadau cymunedol.

Gweithgarwch Gyrfaedd

- o **Sgiliau Cymru** - ymuno â chwmmnïau bwyd eraill i fynychu digwyddiadau gyrfaedd Sgiliau Cymru yn Llandudno a / neu Gaerdydd i arddangos eich cwmni a'r swyddi cyffrous sydd ynddo.

Adduned y Gweithle

- o Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymrwymo i o leiaf un fenter ddatblygu / hyfforddi dros y flwyddyn nesaf.

Sut fydd yr Adduned yn gweithio.

Bydd cwmnïau'n ymrwymo i'r 'Ymrwymiad Gyrfaoedd Blasus' sy'n golygu eu bod yn ymrwymo i ymgymryd ag un neu ragor o'r gweithgareddau hyn bob blwyddyn am dair blynedd. Ar ôl llofnodi byddant yn derbyn ymweliad gan Gyrfaoedd Blasus Cymru fydd yn esbonio'r holl opsiynau sydd ar gael, ac yna'n dewis y mwyaf addas i'w sefydliad. Byddant hefyd yn derbyn tystysgrif i nodi eu hymrwymiad a logo i'w ddefnyddio ar eu gwefan. Caiff eu hymglymiad ei fonitro a chaiff astudiaethau achos cysylltiadau cyhoeddus eu llunio a'u cyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio hyn i hyrwyddo'r diwydiant mewn digwyddiadau masnach a chânt eu hamlygu yn Blas Cymru.

Bydd disgwyl i bob cwmni sy'n elwa ar unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r gweithgarwch hwn fel rhan o'u cytundeb.

Beth yw'r manteision?

- o Dangos bod eich cwmni'n gwneud ei ran i hyrwyddo'r diwydiant
- o Manwerthwyr yn disgwyl yn gynyddol i fusnesau ymgymryd â gwaith ymgysylltu gydag ysgolion
- o Adeiladu delwedd eich cwmni fel cyflogwr lleol o ddewis
- o Cyswllt â chronfa arfaethedig o dalent nawr ac at y dyfodol
- o Cyd-fynd â gwerthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynllun Gweithredu Economaidd.

Yr Adduned.

Bydd cwmnïau'n ymrwymo i'r canlynol.



Mae'r diwydiant bwyd a diod yn cynnig gyrfaoedd gwych mewn amgylchedd dynamig ac mae'n stori o lwyddiant i Gymru. Rydym ni am i bobl wybod, yn enwedig pobl ifanc a phobl sy'n ystyried newid gyrfa, bod y sector bwyd a diod yn ddeniadol ac yn ysbrydoli, a bod angen eu talent arnom ni nawr.

Yr unig ffordd i newid canfyddiadau a denu pobl yw i'r diwydiant a'r llywodraeth greu momentwm tymor hir ar gyfer newid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi i ddatblygu seilwaith i gefnogi amrywiol ddatrysiadau ac mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig i bob busnes fynd ati i gymryd rhan ac felly rydym ni (enw'r busnes) yn addunedu i chwarae ein rhan drwy ymgysylltu'n rhagweithiol gyda phobl ifanc er mwyn newid canfyddiadau a hyrwyddo gyrfaoedd ym maes bwyd a diod.




#AddunedGyrfaoeddBlasus

#AddunedGyrfaeoddBlasus

Gall defnyddwyr Twitter ei ddefnyddio mewn amrywiol ffyrdd:

- Rwyf i wedi llofnodi'r
#AddunedGyrfaeoddBlasus
- Rydym ni wedi ymrwymo i
#AddunedGyrfaeoddBlasus
- Mor falch fod [enw] wedi gwneud
#AddunedGyrfaeoddBlasus



#AddunedGyrfaeoddBlasus